

## Perlau Gwerthfawr; dyfodol gwell?

**O dan embargo tan 1<sup>af</sup> o Fedi 2018**

Yn dilyn llwyddiant apêl Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn i achub y glöyn byw Brith Perlog fis Rhagfyr y llynedd - '*Brith Perlog - Gobaith Newydd*' - mae gwaith cynefin amserol a thywydd da'r Gwanwyn wedi helpu i sicrhau cynnydd mewn niferoedd yn y mwyafrif o safleoedd. Nawr ein bod wedi gallu sicrhau mwy o gyllid, a fydd y dyfodol yn well i'r rhywogaeth brin hon sydd o dan fygythiad?

Dros 20 mlynedd, mae Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn (YNM) wedi bod yn gweithio i ddiogelu ac ehangu'r boblogaeth o'r glöyn byw Brith Perlog sy'n weddill ym Maldwyn. Gyda thywydd gwael ac ansawdd y cynefin yn gostwng yn y blynyddoedd diweddar, roedd y brith perlog druan yn dioddef; roedd y boblogaeth yn mynd yn beryglus o isel.

Serch hyn, diolch i haelioni'r rheini a gyfrannodd at yr apêl (*#PBFANewHope*) gaeaf diwethaf, llwyddodd YNM i weithio ar dros 6 hectar o gynefin, i wella ei addasrwydd ar gyfer y glöyn byw. Pan gyrhaeddodd y glöyn byw, dilynwyd hynny gan wanwyn cynnes a sych; tywydd perffaith i'r pryfyn bregus i wasgaru ei adenydd; atgenhedlu a dodwy ei wyau. Roedd niferoedd y gloynnod byw llawn dwf wedi cynyddu ar y mwyafrif o safleoedd; ar ôl pum mlynedd olynol o ostyngiad, roedd hynny'n rhyddhad mawr!

Dyma lygedyn arbennig o obaith ar gyfer y Brith Perlog, ond mae angen rheolaeth gynefin reolaidd er mwyn cadw'r momentwm i fynd. Gyda hynny mewn golwg, mae YNM yn falch iawn bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gallu cyllido ein gwaith ar y rhywogaeth hon. Mae'r prosiect 'Perlau Gwerthfawr' bellach ar waith a bydd yn rhedeg tan fis Rhagfyr 2019. Bydd y cyllid hwn yn ein galluogi i wneud mwy o welliannau i gynefinoedd, parhau i fonitro'r

rhywogaethau a chwilio am safleoedd newydd, yn ogystal â chynnwys cymunedau, ysgolion a gwirfoddolwyr lleol mewn gwaith i achub y glöyn byw.

**Dywedodd Linda Ashton, Uwch Swyddog Partneriaeth, Mynediad a Hamdden, Cyfoeth Naturiol Cymru:**

*“Mae bywyd gwyllt yn rhan bwysig o’n hamgylchedd, ein hetifeddiaeth ac ein diwylliant yng Nghymru ac mae’n holl bwysig i gefnogi prosiectau fel hyn drwy ein rhaglen grantiau cymorth. Bydd y cyllid hwn yn rhoi llawer o gymorth i Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn i barhau â’i gwaith pwysig i amddiffyn y glöyn byw Brith Perlog fel y gallwn ei weld yn ffynnu yn y blynyddoedd sydd i ddod.”*

**Dywedodd Tammy Stretton, Swyddog Cadwraeth YNM:**

*“Mae’n bosib dod o hyd i’r glöyn byw Brith Perlog mewn un ar ddeg safle yn unig dros Gymru gyfan, mae wyth ohonynt ym Maldwyn. Heb ein cymorth ni, nid oes amheuaeth y byddwn yn ei gollu am byth. Gyda hynny mewn golwg, rydym yn hynod falch o fod wedi gallu sicrhau’r cyllid er mwyn cynorthwyo i ddiogelu’r rhywogaeth hon er mwyn i genedlaethau’r dyfodol allu ei mwynhau hefyd.”*

**Lluniau: Contractwr yn torri rhedyn a phrysgoed, ar y 27ain o Chwefror 2018  
Y glöyn byw Brith Perlog**

Mae’r lluniau i gyd yn hawlfraint i Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn.

**diwedd**

Am fwy o luniau, cyfweiliadau a gwybodaeth ychwanegol, cysylltwch â Tammy Stretton: [tammy@montwt.co.uk](mailto:tammy@montwt.co.uk) / 01938 555654.

**Nodiadau i Olygyddion**

1. Am fwy o wybodaeth am y gwaith y mae Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn wedi bod yn ei wneud ar gyfer y glöyn byw Brith Perlog ac i weld ein ffilm (yn Saesneg) fer sy’n cael ei hadrodd gan y Naturiaethwr lolo Williams ‘*Perlau Gwerthfawr Maldwyn*’ edrychwch ar ein gwefan: [www.montwt.co.uk/what-we-do/projects/pearl-bordered-fritillary](http://www.montwt.co.uk/what-we-do/projects/pearl-bordered-fritillary)
2. Gwybodaeth am y glöyn byw Brith Perlog: [www.montwt.co.uk/species/pearl-bordered-fritillary](http://www.montwt.co.uk/species/pearl-bordered-fritillary)
3. Gwybodaeth am yr apêl: [www.montwt.co.uk/PBF\\_ANewHope](http://www.montwt.co.uk/PBF_ANewHope)